# Partneriaid Iechyd Caerdydd

## Arloesi Iechyd, wedi'i Angori yng Nghaerdydd, gyda Chysylltiadau'n creu Effaith Fyd-eang



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust








# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Crynodeb Gweithredol 4

Cyd-destun Strategol 8

Trosolwg o Bartneriaid Iechyd Caerdydd 12

Blaenoriaethau thematig 20

Canlyniadau ac effaith 27

Crynodeb a… beth sy’n dod nesaf? 30

# Cyflwyniad

## Rydym yn falch iawn i gyflwyno Partneriaid Iechyd Caerdydd (CHP).

Fel arweinwyr ein priod sefydliadau, rydym ni a’n timau wedi bod yn gweithio’n agos gyda’n gilydd ar CHP ac yn teimlo’n gyffrous ynghylch y cyfleoedd a ddaw yn sgil y bartneriaeth hon a’r effaith drawsnewidiol y bydd yn ei chael ar ein rhanbarth.

Mae CHP yn cynrychioli cyfnod newydd, gweledigaeth feiddgar, strategol a chydweithredol: tri sefydliad yn dod ynghyd ac yn rhannu ymrwymiad i wella canlyniadau iechyd, ysgogi arloesedd, a chreu buddion parhaol i gleifion a chymunedau. Trwy gyfuno arbenigedd, adnoddau ac angerdd, credwn y bydd y bartneriaeth nid yn unig yn cryfhau’r modd y darperir gofal iechyd ond hefyd yn meithrin rhagoriaeth ymchwil, twf economaidd, a lles cymdeithasol ledled y rhanbarth.

Mae hyn yn fwy na phartneriaeth. Mae’n addewid i weithio gyda’n gilydd er lles ehangach. Byddwn yn gweithio ar y cyd, gyda phartneriaid diwydiant, i wasanaethu fel catalydd ar gyfer newid cadarnhaol, gan osod safonau newydd o ran cydweithio ac effaith.

Diolch am dreulio ychydig amser yn pori drwy’r prosbectws. Edrychwn ymlaen at gydweithio i wireddu’r weledigaeth hon.

Cofion cynnes,



**Carl James**
Prif Weithredwr Dros Dro,
Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre



**Wendy Larner**
Y Llywydd a’r
Is-Ganghellor,
Prifysgol Caerdydd



**Suzanne Rankin**
Prif Swyddog Gweithredol,
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a’r Fro

# Crynodeb Gweithredol

## Partneriaid Iechyd Caerdydd yw'r cyfrwng ar gyfer arloesi iechyd, wedi'i angori yng Nghaerdydd ac â chysylltiadau sy'n creu effaith fyd-eang.

Rydym yn bartneriaeth strategol rhwng Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n cydweddu gwyddoniaeth ddarganfod, gofal clinigol, addysg a phartneriaethau â diwydiant i gyflymu arloesedd i greu ymarfer, gwella tegwch iechyd, ac ysgogi twf economaidd ac adfywio cynhwysol.

### Beth ydym ni am ei gyflawni?

Cynlluniwyd Partneriaid Iechyd Caerdydd i droi cydweithio'n ganlyniadau. Bydd y ffocws cychwynnol ar gryfderau cystadleuol a gydnabyddir yn fyd-eang gan gynnwys Canser, Therapïau'r Ymennydd, a Meddygaeth Fanwl - yn cysylltu asedau a galluoedd ar draws y bartneriaeth i greu offer profi a llwybrau cydlynol. Mae'r model yn lleihau rhwystrau drwy gyd-lywodraethu, cyflwyno ymchwil yn fwy syml, a mynediad at ddata ffederal.

Y canlyniad yw porth ar gyfer cydweithio, llwybrau cyflymach o ymchwilwyr i glinigwyr i gleifion, a gweithlu wedi'i hyfforddi ar draws lleoliadau academaidd, clinigol a diwydiant.

Mae hyn yn cyflawni gwelliant mewn iechyd a thwf economaidd ac adfywio, gyda'i gilydd.

### Pam nawr?

Mae'r cynnig yn barod ar gyfer y diwydiant, ac effaith yw'r ysgogiad. Bydd Partneriaid Iechyd Caerdydd yn trawsnewid tegwch iechyd drwy alluogi cyflenwi gwasanaethau yn agosach at y claf; bydd yn gwella iechyd a lles poblogaeth Caerdydd a thu hwnt drwy ddefnydd strategol o dechnoleg ac yn hyrwyddo twf ac adfywio rhanbarthol drwy greu swyddi o ansawdd uchel a denu mewnfuddsoddiad.

Mae asedau allweddol ar gael i ni ledled Caerdydd, yn amrywio o ganolfannau ymchwil blaengar i leoliadau addysg, treialon pwrpasol a seilwaith arbrofi ynghyd â'r gallu i weithredu ar raddfa fawr.

Mae llwyddiannau cynnar fel triniaethau arloesol clefyd Huntington, treialon newydd llwyddiannus i drin canser, a chwmnïau deillio fel Draig Therapeutics, i gyd yn seiliedig ar ddull rhannu data modern, yn dangos cyflymder, parodrwydd partneriaid, a hygrededd o ran cyflawni.

Dyma'r foment i gefnogi partneriaeth â chysylltiadau sy'n troi cydweddu strategol yn ganlyniadau mesuradwy i gleifion, yr economi a chymdeithas.

Ein gweledigaeth strategol:

**Arloesi Iechyd, sydd wedi'i angori yng Nghaerdydd ac â chysylltiadau sy'n creu effaith Fyd-eang**



# Beth ydym ni am ei gyflawni?

## Trwy fuddsoddi yn ein prif flaenoriaethau, bydd effaith uniongyrchol ar iechyd ein poblogaeth a'r economi.

### Beth yw ein blaenoriaethau buddsoddi?

Mae gennym dair blaenoriaeth thematig gyfredol ar gyfer buddsoddi.

**Gofal canser y genhedlaeth nesaf**

Mae Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP) wedi lansio nifer o dreialon clinigol ar ganser cyfnod cynnar a hwyr, gan gynnwys astudiaethau trosiadol a rhai a arweinir gan ddiwydiant. Gan weithredu fel porth ar gyfer portffolios treialon ledled Cymru, mae'r Bartneriaeth yn hwyluso mynediad a chydweithio.

Rydym yn chwilio am gymorth i ehangu CCRP, gan gynnwys buddsoddi mewn canolfannau cydweithredol yn Adeilad Syr Martin Evans, Prifysgol Caerdydd, a Chanolfan Ganser newydd Felindre, fydd yn ysgogi darganfod, dysgu ac arloesi. Bydd y buddsoddiad hwn yn cyflymu ac yn ehangu ein gallu i ddarganfod a phrofi triniaethau canser newydd.



**Therapïau'r ymennydd**

Yng Nghaerdydd ceir set unigryw o alluoedd delweddu yn CUBRIC (Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd) sy'n perthyn i grŵp dethol o ganolfannau byd-eang sy'n cyflwyno'r therapïau mewngreuanol uwch cyntaf i bobl, yn seiliedig ar arbenigedd delweddu, genomeg a llawfeddygol o'r radd flaenaf.

Rydym yn awyddus i fuddsoddi i adnewyddu ac ehangu adeilad Haydn Ellis ym Mhrifysgol Caerdydd, er mwyn gwella ein galluoedd darganfod ac addysg.

**Galluoedd meddygaeth fanwl**

Mae darpariaeth Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch (ATMP) ac asgwrn cefn genomeg cenedlaethol yn dod at ei gilydd yng Nghaerdydd i ddatblygu meddygaeth fanwl - gan gysylltu niwrolawfeddygaeth dan arweiniad MRI, Canolfan Iechyd Genomig Cymru yn Cardiff Edge, campws arloesi blaenllaw yn Ne-ddwyrain Cymru, a data ffederal a biobanciau i symud yn gyflym o ddarganfod i fabwysiadu.

Rydym ni am sefydlu canolfan rhagoriaeth newydd ar gyfer meddygaeth fanwl yn Cardiff Edge. Rydym ni hefyd am adeiladu mwy o theatrau llawdriniaeth a chyfleusterau delweddu a labordy newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac ehangu'r seilwaith treialu, delweddu, data integredig, a biobanc, gan gryfhau galluoedd presennol i wella'r ffordd rydym ni'n trosi, arbrofi a chyflwyno arloesiadau meddygaeth fanwl newydd.



## Beth fydd hyn yn ei gyflawni?

Trwy fuddsoddi yn y meysydd hyn, byddwn yn:

1. Gwella iechyd a lles poblogaeth Caerdydd a thu hwnt
2. Gwella tegwch o ran mynediad a chanlyniadau iechyd trwy greu arloesiadau, technolegau a dulliau gweithredu a all helpu i gyflwyno gofal yn agosach at adref a lleihau'r ôl troed carbon
3. Sefydlu Caerdydd yn ganolfan rhagoriaeth gydag arbenigedd, cyfleusterau a rhwydweithiau credadwy sy'n denu'r bobl, y syniadau a'r cyfleoedd gorau
4. Sefydlu Caerdydd yn ganolfan rhagoriaeth ymchwil a chyfleoedd gyda phwyslais cynnar ar Ganser, Therapïau'r Ymennydd, Iechyd Digidol ac Iechyd Data
5. Creu cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd a chyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel, gwerth chweil sy'n cynnal y bartneriaeth ac yn ychwanegu gwerth i Dde-ddwyrain Cymru



**Rydym ni'n falch iawn i fod yn aelod o Bartneriaid Iechyd Caerdydd, yn gweithio i gyflwyno arloesiadau sy'n gwella iechyd a lles nid yn unig i bobl De-ddwyrain Cymru ond drwy'r byd, a gwella ffyniant economaidd ein gwlad ar yr un pryd.**

**Y bartneriaeth hon sy'n cynnig y llwybr cyflymaf i ni wella canlyniadau i'r cleifion sydd wrth wraidd ein dyheadau.**

**Wendy Larner**
Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd



# Cyd-destun Strategol
## Mae'r cynsail yn genedlaethol, Mae'r uchelgais yn lleol

**Ledled y DU, Cymru, a Chaerdydd, ceir cyd-destun ac amgylchedd unigryw y gellir manteisio arno i sicrhau effaith sylweddol drwy fuddsoddi.**

### Beth yw cyd-destun y DU?

Dros y degawd diwethaf, mae sector gwyddorau bywyd y DU wedi sefydlu ei hun yn glwstwr sy'n arwain y byd yn cwmpasu fferylliaeth, biotechnoleg, technoleg feddygol, ac iechyd digidol. Mae'r sector bellach yn cyfrannu tua £80 biliwn bob blwyddyn i economi'r DU, gyda chefnogaeth ecosystem arloesi ddatblygedig sy'n cynnwys prifysgolion o'r radd flaenaf, sefydliadau ymchwil a chanolfannau diwydiant fel Arc Rhydychen-Caergrawnt a'r Triongl Aur (Llundain, Rhydychen, Caergrawnt). Mae rhan ganolog hefyd i gwmnïau deillio prifysgolion yn yr ecosystem.

Mae mentrau a gefnogir gan y llywodraeth, gan gynnwys **Cynllun y Sector Gwyddorau Bywyd** a Bargeinion Sector blaenorol, wedi annog cydweithio rhwng y byd academaidd, diwydiant a'r GIG, gan arwain at fwy o fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, arloesedd, a chystadleurwydd rhyngwladol.

Wrth i sefydliadau edrych i'r dyfodol, mae sawl megaduedd allweddol yn effeithio ar feddwl cyfredol, megis meddygaeth fanwl ac wedi'i phersonoli, iechyd digidol ac AI, therapïau celloedd a genynnau, cynaliadwyedd, gwydnwch y gadwyn gyflenwi, a datblygu'r gweithlu.

### Sut mae Cymru a Chaerdydd yn perfformio?

Mae Cymru'n wynebu heriau dybryd o ran canlyniadau iechyd, anghydraddoldeb rhanbarthol, a gwydnwch economaidd. Mae iechyd poblogaeth Cymru'n wael o'i gymharu â llawer o rannau eraill o'r DU, gydag achosion uchel o glefyd cardiofasgwlaidd a chanser ymhlith pobl ifanc ac anghydraddoldeb iechyd sylweddol rhwng cymunedau sy'n byw yn ddaearyddol agos at ei gilydd. Disgwyliad oes Cymru yw'r ail isaf yn y pedair gwlad, sef 79.6 mlwydd oed o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 81.2 mlwydd oed.*

Ar yr un pryd, mae strategaethau'r DU a Chymru'n blaenoriaethu gwyddorau bywyd, ymchwil drosiadol a gofal a ysgogir gan ddata. Mae diwygiadau Cyflenwi Ymchwil Glinigol y DU, safoni trefniadau ymchwil sy'n datblygu ledled y DU, ac ymrwymiadau Cymru i feddygaeth fanwl a therapïau uwch yn creu amgylchedd polisi ffafriol. Amlygir hyn trwy fentrau ymchwil arloesol diweddar, megis therapi genynnau i arafu datblygiad clefyd Huntington a biopsiau hylif newydd QuicDNA i hwyluso penderfyniadau triniaeth canser yr ysgyfaint.

*Data ar gyfer 2023 o Arolwg Poblogaeth Blynyddol NOMIS a'r ONS.





Mae Cymru wedi ymrwymo i ddod yn genedl Marmot** drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sy'n ymgorffori egwyddorion mewn deddfwriaeth a'u mabwysiadu i greu cymdeithas decach i bawb, ac arwain at well iechyd a lleihau anghydraddoldeb. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw trawsnewid y system gofal iechyd, gan weithio tuag at "Gymru Iachach". Mae wedi sefydlu byrddau iechyd integredig a all fod yn fwy ymatebol i anghenion y gymuned a symud o:

- Salwch i Atal.
- Analog i Ddigidol.
- Yr Ysbyty i'r Gymuned.

Mae sector gwyddorau bywyd Cymru wedi gweld twf diwydiannol cryf dros y blynyddoedd diwethaf, ynghyd ag ymchwil arloesol a gweithredol. Yn 2022, cyflawnodd y sector y trosiant uchaf erioed o £2.85 biliwn, gan gyflogi dros 13,000 o bobl.

Serch hynny, mae yna anawsterau. Mae'r llwybr o ymchwil i gymhwyso clinigol yn dameidiog ac mewn seilos. Yn ogystal, caiff cyfleoedd eraill eu colli oherwydd diffyg integreiddio, cydlynu a seilwaith y gellir ei ehangu.

### Sut allwn ni wella iechyd y boblogaeth drwy Bartneriaid Iechyd Caerdydd?

Partneriaid Iechyd Caerdydd fydd y catalydd yn Ne-ddwyrain Cymru ar gyfer cyflawni'r trawsnewid y cytunir arno ac sydd wedi'i ddisgrifio'n fanwl, drwy ddulliau pwrpasol yn seiliedig ar le i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, cymdeithasol ac economaidd.

Bydd yn gwthio ffiniau meddygaeth, fel y gwnaeth eisoes, a bydd hynny nid yn unig yn gwella canlyniadau iechyd, ond hefyd yn cadw ein talentau ac yn dod â buddsoddiad i Gymru gyda ffyniant ynghyd ag uchelgais i'n cymunedau.

Bydd yn hwyluso trosglwyddo ffocws ein gwasanaethau i'n cymunedau a chysylltu â rhanddeiliaid ehangach i ysgogi'r tri newid strategol a amlinellir uchod, gan ddefnyddio talentau'r Brifysgol a'r GIG i drawsnewid ein darpariaeth a'n ffocws.

Bydd yn ysbrydoli, yn addysgu ac yn hyfforddi ein plant i'w paratoi i fod yn weithlu'r dyfodol, gyda gyrfaoedd gwerth chweil fydd yn eu galluogi i gynnal eu teuluoedd a'u cymunedau ac yn galluogi Cymru i ffynnu.

**https://www.gov.wales/wales-become-worlds-first-marmot-nation-tackle-health-inequalities

# Beth yw safle Caerdydd ar draws ffactorau economaidd-gymdeithasol allweddol?

**Rydym ni wedi ein meincnodi ein hunain yn erbyn y DU. Mae'r perfformiad economaidd is na'r cyfartaledd ynghyd â'r gyfradd ysmygu uchel a'r disgwyliad oes is yn profi'r angen am Bartneriaid Iechyd Caerdydd ac adfywio ar raddfa eang i adeiladu cymunedau mwy ffyniannus.**

## Economaidd

**4.5%**
Cyfradd ddiweithdra yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 4.6%

**23.6%**
Cyfradd anweithgarwch economaidd yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 20.9%

**£20,233**
GDHI y pen yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y Deyrnas Unedig*: £25, 411

## Cymdeithasol

**£204,160**
Pris tŷ canolrifol ar gyfer eiddo preswyl yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y Deyrnas Unedig*: £321,899

**5.1**
Allyriadau CO2 y pen yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 5.9

**757**
Dwysedd poblogaeth** yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 1806

## Iechyd

**13.0%**
Cyfradd yr ysmygwyr yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 11.6%

**79.6 years**
Disgwyliad oes yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 81.2 years

**0.68**
Cyfradd marwolaethau babanod yn Ne-ddwyrain Cymru
Cyfartaledd y DU*: 0.71

*Defnyddiwyd data 354 o awdurdodau lleol ledled y DU i gyfrifo cyfartaledd y DU
** Cyfrifwyd gyda data Cyfrifiad 2021

Mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at gryfderau'r rhanbarth, megis dwysedd poblogaeth is ac allyriadau CO2 is, sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd gwell a chost is ar gyfer sefydlu busnesau. Mae'r dadansoddiad economaidd yn datgelu cyfleoedd sylweddol ar gyfer twf yn yr ardal.

Hefyd cynhaliwyd asesiad ansoddol o **gryfderau** a **chyfleoedd** y rhanbarth.

### Cryfderau

- Mae ein dadansoddiad o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol yn dangos bod cynnydd ar draws yr holl fetrigau economaidd, cymdeithasol ac iechyd yn gyson â thueddiadau cenedlaethol.
- Mae Caerdydd yn meithrin gweithlu medrus iawn trwy bartneriaethau academaidd-diwydiant cryf. Mae'r cydweithio rhwng clinigwyr, ymchwilwyr ac addysgwyr yn meithrin ymchwil drosi ac arloesi cyflym. Yn fwy penodol, mae nifer y gweithwyr ymchwil, peirianneg a thechnoleg proffesiynol yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cynyddu 45%, gan ragori'n sylweddol ar gynnydd cyfartalog y DU o 19%. Mae hyn yn awgrymu presenoldeb cryf o ran sgiliau arbenigol sy'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo gwyddorau bywyd a busnesau'n seiliedig ar arloesi.
- Ceir rhwydwaith integredig o gyfleusterau arloesol yng Nghaerdydd, gan gynnwys Parc Gwyddor Bywyd a Thechnoleg Cardiff Edge, Canolfan Iechyd Genomig Cymru, Canolfan Ganser newydd flaengar yn Felindre, a'r unig ysbyty plant yng Nghymru. Mae'r seilwaith cynhwysfawr hwn yn cefnogi ymchwil ac arloesi blaengar ym meysydd genomeg, gofal canser, a meddygaeth fanwl. Caiff niwrowyddorau yn benodol eu canmol yng Nghynllun Sector y Gwyddorau Bywyd.

### Cyfleoedd

- Gallai gweithredu yn Ne-ddwyrain Cymru fod yn fwy proffidiol i fusnesau gwyddorau bywyd o'i gymharu â dinasoedd eraill. Mae ardaloedd sydd â phartneriaethau iechyd tebyg, megis Bryste a Chaeredin, yn nodi trosiant is fesul busnes gwyddorau bywyd (£8 miliwn a £12 miliwn yn eu tro), tra bod Caerdydd yn nodi £14 miliwn.
- Mae partneriaethau iechyd eraill, fel y rhai ym Manceinion a Bryste, yn dangos pŵer cyfuno technoleg ac AI gyda chydweithio cryf rhwng y byd academaidd, ymarfer clinigol, a diwydiant. Mae'r synergedd hwn yn hybu ymchwil, yn ysgogi twf economaidd, ac yn tynnu sylw at botensial sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer cynnydd pellach i CHP.



# Trosolwg o Bartneriaid Iechyd Caerdydd

## Arloesi Iechyd, sydd wedi'i angori yng Nghaerdydd ac â chysylltiadau sy'n creu effaith Fyd-eang.

### Beth yw CHP?

Rydym ni'n bartneriaeth strategol rhwng Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Rydym yn dod â phartneriaethau gwyddoniaeth **darganfod**, **gofal iechyd**, **addysg** a **diwydiant** ynghyd i drosi arloesedd yn ymarfer yn gyflym, gwella iechyd a thegwch ac ysgogi twf economaidd ac adfywio cynhwysol.

Drwy gysylltu ymchwil o'r radd flaenaf â chyflenwi rheng flaen a sylfaen ranbarthol gref yn y gwyddorau bywyd, rydym yn gweithredu fel peiriant ar gyfer strategaeth yn seiliedig ar leoedd sy'n lleihau gweithredu tameidiog, yn cyflymu trosi, ac yn sicrhau mai Cymru yw'r partner a ddewisir ar gyfer ymchwil, arloesi, buddsoddi a thalent.

Y canlyniad yw porth ar gyfer **cydweithio**, llwybrau cyflymach o'r **ymchwilydd i'r claf**, a **gweithlu** wedi'i hyfforddi ar draws lleoliadau academaidd, clinigol a diwydiant. Mae hyn yn arwain at gyflwyno gwell iechyd a thwf economaidd, gyda'i gilydd.



### Pwy yw'r tri chorff sefydlu?

Mae **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre** yn cynnig gwasanaethau iechyd gwaed a chanser, yn ogystal â gwasanaethau eraill, i bobl Cymru. Disgwylir i Ganolfan Ganser newydd Felindre agor yn 2027, a bydd y cyfleuster clinigol o'r radd flaenaf yn cynnwys un o'r prif gyfresi blaenllaw o ddyfeisiau triniaeth radiotherapi. Mae hefyd yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd cryf, gan gynnwys gweithredu'n llwyr ar drydan a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Mae ymchwil biofeddygol a gwyddorau bywyd **Prifysgol Caerdydd** ar flaen y gad wrth fynd i'r afael â heriau iechyd byd-eang trwy ddarganfod, arloesi a chydweithio. Gyda chefnogaeth asedau blaengar, gan gynnwys Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd (CUBRIC) a'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau, mae wedi creu dealltwriaeth newydd ym meysydd canser, niwrowyddoniaeth, heintiau, meddygaeth adfywiol, a genomeg.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** yw sefydliad mwyaf y GIG yng Nghymru, yn gwasanaethu bron i hanner miliwn o bobl a darparu gwasanaethau arbenigol. Mae'n cynnal Canolfan Iechyd Genomig Cymru ac yn gyfrifol am yr unig ysbyty plant yng Nghymru.



## Sut ydym ni'n gweithio?

**1** Cydweddu Gweledigaeth a Strategaeth

**2** Mae cydweithio wrth wraidd yr hyn a wnawn

**3** Rydym ni'n adeiladu ecosystem gynhwysol

**4** Cyfuno ymchwil gofal iechyd, diwydiant, a'r byd academaidd, gyda gofal cleifion

Ein hegwyddorion yw ein hangor ac mae gennym ymagwedd gadarn at greu dyfodol gwell, iachach a mwy ffyniannus.

Rydym ni'n hyderus y bydd y sylfeini rydym ni'n eu gosod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, anghyfartalwch economaidd ac yn cyflawni prosiectau sydd wir eu hangen ar ein poblogaeth.

> **I mi, Partneriaid Iechyd Caerdydd yw'r ffordd i wneud y gorau o'r cyfle i greu, cydweithio, ehangu a chyflymu mynediad at fanteision yr ymyriadau a'r triniaethau newydd hyn sy'n newid bywydau pobl De-ddwyrain Cymru yn ogystal ag yn fyd-eang.**
>
> **Suzanne Rankin**
> Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# Beth yw ein nodau?

## 1

### Ysgogi arloesedd

Trosi ymchwil yn ymarfer yn gyflym, gan ganolbwyntio ar ddiagnosteg fanwl, canfod cynnar, atal, a therapïau uwch.

## 2

### Cyflymu gwasanaeth iechyd ein cymuned a lleihau anghyfiawnder

Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a sicrhau mynediad teg at ofal arloesol i bob cymuned.

## 3

### Ysgogi twf ac adfywio economaidd

Ysgogi cyflogaeth gwerth uchel, twf BBaChau, a mewnfuddsoddi.




## 4

### Galluogi ymchwil drosi

Pontio gwyddoniaeth ddarganfod ac ymarfer clinigol, gan gyflwyno therapïau newydd i gleifion yn gyflymach.

## 5

### Datblygu gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Meithrin a chadw gweithlu rhyngddisgyblaethol, medrus trwy addysg integredig a datblygu proffesiynol.

## 6

### Meithrin cydweithio rhanbarthol

Gwneud y mwyaf o adnoddau ac adeiladu canolfannau rhagoriaeth i'w rhannu ledled Cymru.





# Beth mae hyn yn ei olygu yn fwy manwl?

**Trwy ddull cydweithredol, bydd Partneriaid Iechyd Caerdydd yn gweithredu fel cyfrwng trawsnewidiol unigryw i Dde-ddwyrain Cymru.**

### Pam nawr?

Bydd sefydlu'r bartneriaeth yn galluogi'r sefydliadau i ddylanwadu ar liferi polisi a ffynonellau cyllido niferus gan gynnwys buddsoddiad o £86 biliwn gan Lywodraeth y DU mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a'r Gronfa Arloesi Ranbarthol.

Ceir cyfleoedd sy'n cyd-fynd â'r wyth prif sector yn Strategaeth Ddiwydiannol 2025 Llywodraeth y DU, yn enwedig y synergedd rhwng Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni Glân a Thechnoleg a Digidol, a'r rôl gynyddol y bydd Prifysgolion yn ei chwarae wrth ysgogi a chyflawni twf rhanbarthol. Yn ogystal, mae Cynllun Sector y Gwyddorau Bywyd yn amlygu ein rôl yn cefnogi astudiaethau masnachol, gan gynnwys pedair canolfan gatalytig newydd a lansiwyd eleni ym maes Iechyd Menywod, Firoleg, Golwg ac AI mewn Gofal Cymdeithasol.

Mae'r cyfle yn sensitif o ran amser ac mae angen i Dde-ddwyrain Cymru fanteisio ar feysydd lle ceir mantais gystadleuol eisoes ac mae'n dechrau arwain y ffordd:

Rydym ni mewn sefyllfa unigryw i gyflawni uchelgais y llywodraeth i gyflymu arloesedd a thwf rhanbarthol a chenedlaethol yn y Gwyddorau Bywyd.

### Sut ydym ni'n mesur ein llwyddiant?

- Mabwysiadu datblygiadau arloesol yn seiliedig ar dystiolaeth mewn gofal dydd i ddydd
- Anghydraddoldeb disgwyliad oes ar draws y rhanbarth
- GVA ar draws Caerdydd a'r rhanbarth cyfagos
- Swyddi a gaiff eu creu
- Mewnfuddsoddiad a ddenir (nifer a gwerth)
- Nifer y prosiectau ymchwil cydweithredol (nifer a gwerth)
- Nifer y treialon clinigol (nifer a gwerth)
- Metrigau datblygu'r gweithlu (hyfforddiant, cadw, amrywiaeth)

> **Mae CHP yn cynnig cyfle trawsnewidiol i Dde-ddwyrain Cymru—ac yn dod ag arloesedd, rhagoriaeth glinigol ac effaith gymunedol at ei gilydd. Mae'n ymwneud â mwy na buddsoddi yn unig; mae'n golygu llunio dyfodol lle bydd y rhanbarth yn arwain y ffordd mewn partneriaethau iechyd integredig.**
>
> **Carl James**
> Prif Weithredwr Dros Dro, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

## Pa asedau sydd gennym ni?

Mae amrywiaeth eang o asedau ar gael i ni. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

**Parc Gwyddor Bywyd a Thechnoleg Cardiff Edge**
Cartref Canolfan Iechyd Genomig genedlaethol newydd Cymru, gyda chydleoliad posibl ar gyfer patholeg gellog ranbarthol, sy'n creu llwybrau diagnostig moleciwlaidd meinwe dynol safonol. Mae cyfle cyffrous i ddatblygu galluoedd gweithgynhyrchu meddygaeth fanwl fodiwlaidd gyda phartneriaid diwydiant, ochr yn ochr â Cytiva a Llusern Scientific fel tenantiaid cyfredol.

**Canolfan Ganser Felindre**
Cyfleuster clinigol o'r radd flaenaf gyda Chanolfan Cydweithio ar gyfer Dysgu, Ymchwil ac Arloesi fel canolfan CHP, fydd yn agor yn 2027.

**Campysau Prifysgol Caerdydd**
Galluogi gwyddoniaeth ddarganfod, ymchwil cyn-glinigol, ac arloesi digidol. Ategir arbenigedd mewn canser, niwrowyddoniaeth a meddygaeth adfywiol gan waith arloesol mewn gwyddor data, delweddu a moeseg. Mae gofodau arloesi fel sbarc|spark yn cysylltu ymchwilwyr gwyddorau cymdeithasol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat.

**Campws Parc y Mynydd Bychan**
Mae Campws Parc y Mynydd Bychan yn darparu gofal di-dor, sy'n canolbwyntio ar y person ar hyd y continwwm iechyd llawn, o atal a gofal sylfaenol i wasanaethau aciwt, adsefydlu a chynhaliaeth diwedd oes, a ysgogir gan arloesedd a thegwch i'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu yn yr ysbyty addysgu mwyaf yng Nghymru.

**Platfform Data Ffederal, Delweddu a Biobanc**
Rhaglen uchelgeisiol ledled Cymru i ddatblygu sgiliau, cysoni cydsyniad, llywodraethu, a mynediad rhyngweithredol ar gyfer ymchwil drosi.








**Trwy gydweithio, gallwn bontio ymchwil a gofal cleifion - ysgogi arloesedd, gwella canlyniadau, a sicrhau bod ymarfer y GIG yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Gall ein hymchwilwyr weithio gyda chlinigwyr prysur o bob proffesiwn i wella systemau gofal iechyd a darparu gofal i gleifion.**

**Steve Riley**
Rhag Is-Ganghellor, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, Prifysgol Caerdydd


# Blaenoriaethau thematig

**Mae tri maes thematig wedi'u datblygu fel blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer buddsoddi. Mae pob un o'r meysydd thematig hyn yn greiddiol i lwyddiant tymor byr CHP.**

## Blaenoriaethau thematig cychwynnol


### 1 Gofal canser y genhedlaeth nesaf

Mae Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd wedi lansio nifer o dreialon clinigol canser cyfnod cynnar a hwyr, gan gynnwys astudiaethau trosiadol a rhai a arweinir gan ddiwydiant. Gan weithredu fel porth ar gyfer portffolios treialon ledled Cymru, mae'r Bartneriaeth yn hwyluso mynediad a chydweithio.




### 2 Therapïau'r ymennydd

Yng Nghaerdydd ceir set unigryw o alluoedd delweddu yn CUBRIC (Canolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd) sy'n perthyn i grŵp dethol o ganolfannau byd-eang sy'n cyflwyno'r therapïau mewngreuanol uwch cyntaf i bobl, yn seiliedig ar arbenigedd delweddu, genomeg a llawfeddygol o'r radd flaenaf.



### 3 Galluoedd meddygaeth fanwl

Mae darpariaeth ATMP ac asgwrn cefn genomeg cenedlaethol yn dod at ei gilydd yng Nghaerdydd i ddatblygu meddygaeth fanwl - gan gysylltu niwrolawfeddygaeth dan arweiniad MRI, Canolfan Iechyd Genomig Cymru yn Cardiff Edge, a data ffederal a biobanciau i symud yn gyflym o ddarganfod i fabwysiadu.



## Ffrwd Ymchwil ac Arloesedd

Mae Partneriaid Iechyd Caerdydd wedi pecynnu ceisiadau buddsoddi ar draws y ffrwd ymchwil ac arloesi o'r naill ben i'r llall: darganfod, meddygaeth, arbrofol, datblygu, treialon, mabwysiadu a graddfa. Ni yw'r cyfrwng a fydd yn cysylltu'r byd academaidd, diwydiant a'r GIG fel bod cyfalaf yn cyrraedd y cam cywir ar yr adeg iawn.

Mae'r ffrwd hon yn sicrhau bod buddsoddiadau'n atgyfnerthu ei gilydd, yn symud yn gynt at effaith, ac yn cynnig llwybr clir i bartneriaid ymgysylltu. Caiff ceisiadau cyfredol eu mapio i'r ffrwd i lywio cyd-fuddsoddi gan y llywodraeth, diwydiant a chyllidwyr eraill.

| Darganfod | Trosi | Arbrofi | Gweithredu | Addysg |
|---|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â heriau gofal iechyd pwysig. | Cynnwys canfyddiadau ymchwil mewn cymwysiadau ymarferol. | Canolbwyntio ar brofi bod y wyddoniaeth yn gweithio. | Cynnwys datblygiadau arloesol yng nghyflenwi'r GIG, a'u cyflwyno i gleifion. | Gwreiddio arloesedd yn hyfforddiant y gweithlu, fel y gall gweithwyr proffesiynol y dyfodol ehangu'r effaith. |
| | Gosod a phryhlesu Cardiff Edge | Seilwaith a threialon, delweddu, data a biobanc | Theatrau llawdriniaeth ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru | Canolfan Darganfod, Arloesi a Chydweithio yn nVCC |
| Uwchraddio CCRP | | | | |
| | | Adnewyddu a buddsoddi yn Haydn Ellis a Syr Martin Evans | | |

# Gofal canser y genhedlaeth nesaf

## Ymchwilio a chyflwyno'r genhedlaeth nesaf o driniaethau ar gyfer canser cymhleth.

Yng Nghaerdydd ceir arbenigedd ymchwil canser glinigol ac academaidd flaenllaw, yng ngwyddoniaeth y labordy a threialon clinigol. Mae Partneriaid Iechyd Caerdydd yn defnyddio'r cryfderau hyn, gan eu cyfuno â galluoedd mewn genomeg, diagnosteg, gwyddor data a gwasanaethau canser y GIG i fynd â thriniaeth canser i'r lefel nesaf.

Mae Canolfan Ganser arbenigol newydd Felindre, taith gerdded fer o Cardiff Edge, yn cydweithio ym meysydd darganfod, datblygu a chyflawni. Mae Ysbyty Athrofaol Cymru gerllaw yn darparu arbenigedd cenedlaethol, o fewn pellter cerdded i sefydliadau ymchwil darganfod a throsiadol allweddol, gan gynnwys Canolfan Meddyginiaethau Canser Arbrofol Caerdydd, Canolfan Ymchwil Canser Cymru, Banc Canser Cymru, a'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio Ardal Arloesi Canser Caerdydd. Gyda chyfraddau canser yn uwch na chyfartaledd y DU, mae Caerdydd yn fan profi go iawn ar gyfer treialu a graddio ffyrdd newydd o atal, cael diagnosis a thrin canser.

### Sylw i... Partneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd

Mae'r tridarn wedi'i gynllunio i wella canlyniadau, cyflwyno ymchwil o'r radd flaenaf, galluogi therapïau uwch, a chreu ffrwd strwythuredig, o ddarganfod i gymhwyso clinigol. Mae gan CCRP ffrwd fywiog a chynaliadwy o weithgarwch treialon. Mae'r cynnydd hyd yma yn gryf ond mae'r gofod presennol a chapasiti'r gweithlu'n cyfyngu ar ehangu.

### Pa asedau ffisegol, dynol ac arloesi sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth?

- Sefydlu canolfan darganfod, arloesi a chydweithio yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre ar gyfer dysgu, ymchwil ac arloesi
- Sefydlu Canolfan Darganfod Canser Caerdydd yn adeilad Syr Martin Evans, ar gyfer cyd-leoli ymchwil gyn-glinigol a throsiadol o'r radd flaenaf
- Mannau profi ychwanegol ac ehangu'r gweithlu er mwyn uwchraddio CCRP, ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Buddsoddi mewn seilwaith ar draws Ardal Arloesi Canser Caerdydd, i wella cysylltedd ffisegol
- Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ac ymgysylltu â diwydiant, i ehangu'r porth i bartneriaid masnachol a datblygu busnes



**Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym ni'n trosi ein darganfyddiadau'n driniaethau canser newydd ac yn cynnig cyfleoedd i gleifion canser yng Nghymru fanteisio ar amrywiol driniaethau newydd na fyddai ar gael fel arall yn y wlad.**

**Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cysylltiadau â diwydiant i ehangu a dod â ffrydiau newydd cyffrous o driniaethau i'r clinig er budd cleifion.**

**Dr Jacinta Abraham**, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

# Therapïau'r ymennydd

## Ysgogi datblygiadau mewn Gwyddorau'r Ymennydd ac Iechyd Meddwl.

Mae therapïau'r ymennydd yn cyfeirio at sbectrwm o ymyriadau meddygol a niwrodechnolegol datblygedig. Eu nod yw trin cyflyrau niwrolegol a niwroddirywiol. Rydyn ni'n dod ag arbenigedd mewn genomeg, niwrowyddoniaeth, seiciatreg a gwyddor data ynghyd i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf dybryd sy'n wynebu cymdeithas, megis dementia, sgitsoffrenia, anhwylderau symud, anhwylder deubegynol, clefyd niwrolidiol ac anhwylderau niwroddatblygiadol. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar drosi darganfyddiadau genetig yn therapïau personol a datblygedig yn y byd go iawn.

Mae Caerdydd yn ennill ei lle fel canolfan fyd-eang ar gyfer y therapïau mewngreuanol datblygedig cyntaf mewn pobl, lle caiff triniaethau eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r ymennydd. Cefnogir hyn gan CUBRIC a'r Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau, sy'n cynnig delweddu, genomeg ac arbenigedd llawfeddygol o'r radd flaenaf.

### Sylw i... Therapïau Mewngreuanol Datblygedig

Mae'r therapïau hyn yn targedu cyflyrau niwrolegol a niwroddirywiol gan ddefnyddio dulliau cyflwyno mewngreuanol. Caerdydd yw un o'r ychydig ganolfannau dethol drwy'r byd sy'n cyflwyno'r Cynnyrch Meddyginiaethol Therapi Uwch mewngreuanol cyntaf mewn pobl. Er bod gennym y wybodaeth a'r gallu i ddarparu'r therapïau hyn, er mwyn ehangu mae angen seilwaith ychwanegol.

### Pa asedau ffisegol, dynol ac arloesi sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth?

- Ailddatblygu adeilad Haydn Ellis yn helaeth i sylfaenu sefydliad ymchwil o'r radd flaenaf sy'n cefnogi ymchwil academaidd a chydweithio gyda diwydiant.
- Buddsoddi i ehangu gwelyau cleifion mewnol a chyfleusterau i gleifion allanol ar gyfer Therapïau Uwch mewngreuanol.
- Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu er mwyn i Gaerdydd gael ei ystyried yn siop un stop ar gyfer y treialon clinigol AT mewngreuanol cyntaf mewn pobl.
- Staff ychwanegol, yn dechnegwyr a chymrodyr hyfforddi i gyflenwi gweithrediadau a hyfforddiant.



**Bu datblygiad rhyfeddol dan law yr Athro William Gray a'i dîm yn y Ganolfan Niwrotherapïau Uwch - rhan o Bartneriaid Iechyd Caerdydd.Mae'r tîm wedi cyflwyno therapi genynnau arloesol trwy niwrolawdriniaeth gymhleth, a'r cyfan wedi'i gyflawni mewn sganiwr MRI pwrpasol yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r tîm arbenigol yn yr Ysbyty Athrofaol yn unigryw yn y DU, un o ddwy ganolfan yn unig yn Ewrop a phump ledled y byd sy'n cyflwyno'r treial hwn. Ar hyn o bryd maen nhw hefyd yn cyflawni treialon therapi genynnau eraill ar gyfer clefydau niwrolegol.**

**David Fluck**, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol GIG Caerdydd a'r Fro

# Galluoedd meddygaeth fanwl

## Teilwra strategaeth atal a thriniaeth ar gyfer iechyd ein poblogaeth.

Mae meddygaeth fanwl yn defnyddio profion genetig, dadansoddeg data, a biofarcwyr i ddeall sut mae gwahanol bobl yn ymateb i glefyd a therapi, gan wella canlyniadau ac effeithlonrwydd. Mae meddygaeth fanwl yn dibynnu'n helaeth ar y gallu i gasglu, integreiddio a dadansoddi data genomig, delweddu, clinigol a biobanc ar raddfa fawr. Ein blaenoriaeth yw meithrin gallu data ffederal, delweddu a biobanc sy'n galluogi mynediad diogel, rhyngweithredol ar draws sefydliadau, gan bontio gwyddoniaeth ddarganfod i gymhwyso clinigol cyflym.

### Sylw i... Cardiff Edge a Phatholeg Ranbarthol

**Cardiff Edge** yw'r prif gampws pwrpasol ar gyfer gwyddor bywyd a thechnoleg yng Nghaerdydd a rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Gyda 320,000 troedfedd sgwâr o le i ehangu, mae'n cynnig cyfle unigryw i greu ecosystem gwyddorau bywyd enghreifftiol sy'n cysylltu busnes, y byd academaidd a chyfleusterau labordy'r GIG mewn un lleoliad. Bwriedir datblygu'r cyfleuster labordy cyntaf yn fuan.

Mae'r **Gwasanaeth Patholeg Gellog Rhanbarthol** yn datblygu'r seilwaith angenrheidiol, a gyd-leolir gyda Chanolfan Iechyd Genomig Cymru, gan greu sylfaen gadarn ar gyfer Canolfan Rhagoriaeth Meddygaeth Fanwl, i drawsnewid y gwasanaeth presennol ar lefel ranbarthol a chefnogi'r gwaith o drosi i'r rhaglen patholeg ddigidol.

### Pa asedau ffisegol, dynol ac arloesi sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth?

- Buddsoddiad yn Cardiff Edge er mwyn datblygu labordy arloesol newydd ar gyfer gwasanaethau patholeg gellog rhanbarthol a gofod diwydiannol ar gyfer bioweithgynhyrchu
- Ehangu biobanc a gwell cefnogaeth ddigidol, trwy sefydlu seilwaith wedi'i gysoni o ddata ffederal a samplau
- Theatrau llawdriniaeth ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, i wella capasiti yn y tymor byr
- Neilltuo cyllid i ymchwil a datblygu, ar gyfer offer AI, peilotiaid data arloesol, a sefydlu partneriaethau diwydiant



**Cawn ein hysbrydoli gan y cyfle y mae Partneriaid Iechyd Caerdydd yn ei gyflwyno, sydd ond yn ymddangos unwaith mewn cenhedlaeth: tanio gwyddorau bywyd academaidd ledled Caerdydd ac ecosystem ehangach Cymru, gan greu canolfan fywiog o ddarganfod ac arloesi.**

**Mae Illumina'n ymrwymo'n llwyr i gefnogi Partneriaid Iechyd Caerdydd yn eu cenhadaeth i sefydlu Cymru'n arweinydd byd-eang a chyrchfan ar gyfer rhagoriaeth gofal iechyd genomig.**

**Illumina**



# Llwyddiannau hyd yma

## Mae Caerdydd eisoes yn cyflawni'r datblygiadau cyntaf ac yn creu pwyntiau prawf. Mae pob llwyddiant yn gam bach sy'n asio i wireddu gweledigaeth strategol CHP.

### Triniaeth Clefyd Huntington

Canfu treial diweddar o driniaeth newydd fod cleifion sy'n ei derbyn wedi profi 75% yn llai o gynnydd yn y clefyd yn gyffredinol. Y Ganolfan Niwrotherapiwteg Uwch (ANTC), a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yw'r unig ganolfan yn y DU sy'n gallu cyflawni'r llawdriniaethau a gynhwysir yn y treial – yn defnyddio arbenigedd niwrolawfeddygol sy'n arwain y byd wrth gyflwyno therapïau genynnau i'r ymennydd.

Mae gan hyn botensial sylweddol i ehangu, a helpu i wella ansawdd bywyd ar gyfer cyflwr dinistriol.

### Rhannu Data Modern

Mae'r Uned Ymchwil AML Haematoleg ym Mharc y Mynydd Bychan yn enghraifft flaenllaw o sut y gall setiau data integredig a samplau biobanc â chydsyniad ysgogi ymchwil drosi yn y byd go iawn.

Gan ddefnyddio asedau fel Biobanc Prifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Ymchwil Treialon, mae'n cyflawni partneriaethau lleol â diwydiant yn ogystal â chyfrannu at bartneriaethau byd-eang mawr fel Cynghrair HARMONY. Mae'r ymrwymiad hwn i fod yn agored a rhannu yn cyflymu gwyddoniaeth drosi, gan ddod â buddion i gleifion yn gynt.

### Cwmnïau Deillio

Mae Draig Therapeutics yn gwmni deillio diweddar o Brifysgol Caerdydd. Mae'r cwmni biotechnoleg glinigol wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac yn canolbwyntio ar ddatblygu therapïau trawsnewidiol ar gyfer anhwylderau niwroseiciatrig.

Mae rhwydwaith cryf o fuddsoddwyr yn eu cefnogi ac fe'u lansiwyd yn rhan o un o'r cylchoedd cyllido Cyfres A mwyaf yn hanes biotechnoleg y DU. Bydd y gwaith yn sicrhau manteision therapiwtig trawsnewidiol i gleifion ag Anhwylder Iselder Difrifol.

### Treialon Canser yng Nghaerdydd

Hyd yn hyn, mae sawl treial CCRP wedi agor, gyda ffrwd gref o dreialon cymhleth ar y gweill ar gyfer canserau tiwmor solet a gwaed. Mae'r rhain yn cynnwys dau dreial o bortffolio BioNTech cenedlaethol Ymchwil Gofal Iechyd Cymru, sy'n dangos rôl allweddol CCRP yn galluogi dod a chyflwyno portffolios treialon diwydiant cyfan yn Cymru, yn hytrach na dim ond treialon unigol.

Mae CHP yn adeiladu ar sylfaen gref o ymchwil canser sy'n cael effaith fyd-eang ymhlith y partneriaid. Er enghraifft, arweiniodd treial FAKTION dan arweiniad Felindre at ddatblygu cyffur sydd bellach ar gael yn rheolaidd i gleifion canser y fron y GIG, a CCRP oedd y recriwtiwr mwyaf yn y DU i dreial Monumental 6 ar therapi gwrthgyrff deusbesiffig ar gyfer cleifion â myeloma lluosog.





© Hawlfraint y Goron (2025) Cymru Wales

### Astudiaeth QuicDNA

Ar hyn o bryd, canser yr ysgyfaint yw'r trydydd canser mwyaf cyffredin yng Nghymru, gyda mwyafrif y cleifion yn cael diagnosis pan fydd wedi datblygu. Drwy astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd ledled Cymru ac a arweiniwyd o Gaerdydd, datblygwyd prawf newydd sy'n defnyddio biopsi hylif o DNA tiwmor sy'n cylchredeg yn y gwaed, yn hytrach na biopsi meinwe solet, i ganfod newidiadau genetig y gellir eu targedu i'w trin yn gyflym ac yn fanwl gywir. Canfuwyd bod y dull llai ymwthiol hwn o gael sampl yn cyflwyno canlyniadau'n gyflymach. Bellach gallwn sicrhau bod cleifion yn derbyn y driniaeth angenrheidiol yn gynt, sy'n achub bywydau.

"

**Dewisodd Prifysgol Caerdydd gamu ymlaen i droi ymchwil yn realiti, a gwneud iechyd, cyfoeth a chyfleoedd yn genhadaeth. Nid geiriau yn unig yw'r uchelgais hwn ond gwaith, nid gweledigaeth yn unig ond penderfyniad. Dyna a welwch chi yn Draig Therapeutics - gwyddoniaeth wedi'i gwreiddio mewn rhagoriaeth, a ysgogir gan arweinyddiaeth, ei thanio gan bartneriaeth, ag iddi nod sy'n fwy nag elw - anelu at greu effaith.**

**Nid dychmygu newid mae Prifysgol Caerdydd, mae'n ei gyflawni. Draig Therapeutics yw'r prawf - mae'n fyw, mae'n anadlu, mae'n barod at y dyfodol.**

**Y Fonesig Kate Bingham**
Partner Rheoli, SV Health Investors

# Canlyniadau ac effaith

## Sut beth yw llwyddiant yn 2035?

### Uchelgais Partneriaid Iechyd Caerdydd yw:

- Cydnabod Caerdydd yn Ganolfan Rhagoriaeth wirioneddol ar gyfer Therapïau'r Ymennydd, a rhagoriaeth mewn Iechyd Digidol ac Iechyd Data (gan adeiladu ar ei chryfder cydnabyddedig mewn genomeg)
- Cydnabod ein partneriaid am eu hymagwedd arloesol sy'n trosi ymchwil flaengar yn ofal a thriniaethau canser rheolaidd
- Creu ffrwd gweithlu, gyda chyfranogiad ehangach, i ddenu mwy o bobl i weithio ar ymchwil ac ymarfer clinigol blaengar, gan gefnogi gyrfaoedd portffolio hybrid mewn lleoliadau clinigol, academaidd ac entrepreneuraidd
- Gwreiddio'r talentau a'r asedau uchod yn ecosystem iechyd a gwyddorau bywyd ehangach y rhanbarth
- Parth glanio pwrpasol sy'n croesawu'r talentau gorau a syniadau beiddgar i arbrofi, cydweithio a chyflymu arloesedd mewn amgylchedd deinamig, a ysgogir gan effaith
- Lleihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth yn weithredol trwy ymyriadau cynhwysol sy'n sicrhau mynediad at ofal a chyfranogiad ymchwil
- Gofal iechyd a gyflwynir yn agosach at y claf (gofal rheolaidd)

### Drwy fuddsoddi yn Partneriaid Iechyd Caerdydd, bydd y rhanbarth yn gweld manteision sylweddol.

Rydym yn disgwyl gwario tua £500m ar seilwaith, a tua £350m ychwanegol ar gapas dynol, ac anghenion ymchwil a datblygu dros y degawd nesaf. Bydd Partneriaid Iechyd Caerdydd yn arwain at gyfraniad economaidd sylweddol o rhwng £785m a £813m mewn GVA a 10,440 – 10,840 o swyddi rhwng 2025-2035. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhyddhau manteision ychwanegol, y tu hwnt i'r effaith ariannol, gan ymestyn ac gwella meini prawf gofal iechyd ledled De-ddwyrain Cymru.

### Methodoleg

Caiff cyfraniad at GDP ei fesur yn nhermau Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Mae GVA yn fesur ariannol o'r gwerth y mae sefydliad yn ei greu yn ystod ei broses gynhyrchu. Dyma'r gwahaniaeth rhwng pris ei gynhyrchion (allbynnau) a phris y mewnbynnau y mae'n eu defnyddio i'w cynhyrchu (neu ddefnydd canolradd).

Mae GVA yn derm amgen ar gyfer GDP ar gost ffactor, sef GDP cyn trethi a chymorthdaliadau ar gynhyrchion. Fel y cyfryw, mae GVA yn cyfateb â GDP ar lefel cwmni.

> **Mae CCRP yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwil canser ac yn galluogi trosi darganfyddiadau newydd i'w cyflwyno i'r clinig er budd cleifion.**
>
> **Er enghraifft, mae treial ATTEST CCRP yn golygu bod cleifion GIG De-ddwyrain Cymru yn manteisio ar dechnoleg fector firws arloesol, yn seiliedig ar ymchwil Prifysgol Caerdydd, sy'n heintio celloedd canser yn ddethol, gan gynhyrchu cyffur sy'n modiwleiddio imiwnedd o'r tu mewn i'r celloedd tiwmor.**

Awen Gallimore
Athro, Prifysgol Caerdydd



**£785m – £813m**

Amcangyfrif o effaith ar GVA rhwng 2025 a 2035





**10,440 – 10,840 FTES**

Yr effaith a amcangyfrifir ar gyflogaeth rhwng 2025 a 2035

**Rhagdybiaethau:**

- Mae gwariant rhwng llafur a chapital yn amrywio. Caiff effeithiau economaidd eu cyflwyno fel ystodau
- Cymerwyd yn ganiataol y bydd 31.8% o wariant ar y cyfalaf a gynigir yn diflannu'n rhyngwladol. Mae hyn yn seiliedig ar ganran mewnforion y DU o gymharu â'r CYN.
- Mae gofynion buddsoddi wedi cael eu codi 2% yn flynyddol i modelu ar gyfer chwyddiant
- Mae'r data mewnbwn economaidd ar gyfer gwariant sectorol wedi ei ddwyn o Dablau Cyflenwi-Defnydd a ddarparwyd gan yr ONS

**Cyfyngiadau:**

- Oherwydd argaeledd data, defnyddiwyd tablau Cyflenwi-Defnydd 2022 yr ONS i amcangyfrif effaith 10 mlynedd
- Cynhaliwyd y dadansoddiad ar sail gros. Ni ystyriwyd ychwanegedd (di-fuddiant, gollyngiadau) yn y cyfraniad cyffredinol
- Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar amcangyfrifon lefel uchel o wariant a gallent newid
- Nid oes wedi bod mewn holiadur llawn ar y ceisiadau buddsoddi

# Crynodeb a... beth sy'n dod nesaf?

### Mae Partneriaid Iechyd Caerdydd...

yn cynnig platfform cyffrous, graddadwy sy'n barod am y tymor byr ac yn wydn yn y tymor hir. Mae'n dod â ffrwd gydlynol o gyfleoedd ar draws canolfannau darganfod, ehangu treialon clinigol, seilwaith (gan gynnwys digidol a data), a datblygu'r gweithlu - gydag asedau blaenllaw a gyd-leolir ac sydd â chyrhaeddiad cenedlaethol yn ei angori.

Bydd buddsoddi'n ysgogi manteision ledled y system: gwell iechyd i'r boblogaeth a mynediad at arloesi; cynhyrchiant rhanbarthol cryfach sy'n creu swyddi gwerth uchel; ac ecosystem weladwy yn rhyngwladol sy'n cyflymu partneriaethau a mewnfuddsoddi.

Bydd Partneriaid Iechyd Caerdydd yn cyflawni uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru, a Strategaeth Ddiwydiannol Gwyddorau Bywyd y DU.

Bydd yn trawsnewid:

- Tegwch iechyd trwy alluogi gwasanaethau iechyd sy'n agosach at y claf
- Cyflawni gwelliant eang mewn iechyd trwy ddefnydd strategol o dechnoleg
- Twf ac adfywio rhanbarthol trwy greu swyddi o ansawdd uchel a denu mewnfuddsoddiad

### Ar hyn o bryd rydym ni'n chwilio am fuddsoddiad ar gyfer...

**Gofal canser y genhedlaeth nesaf**

Ehangu CCRP, yn ogystal â sefydlu canolfan darganfod a chydweithio yn Adeilad Syr Martin Evans a a chanolfan darganfod, arloesi a chydweithioyng Nghanolfan Ganser newydd Felindre ar gyfer dysgu, ymchwil ac arloesi. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi darganfod a throsi triniaeth newydd ar gyfer canser.

**Therapïau'r ymennydd**

Adnewyddu ac ehangu adeilad Haydn Ellis ym Mhrifysgol Caerdydd, i wella ein galluoedd darganfod ac addysg.

**Galluoedd meddygaeth fanwl**

Sefydlu canolfan rhagoriaeth newydd yn Cardiff Edge, adeiladu mwy o theatrau llawdriniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru, ac ehangu'r seilwaith treialon, delweddu, data, a biobanc, i wella trosi, arbrofi a chyflwyno arloesiadau meddygaeth fanwl newydd.

### Beth ydym ni'n ei wneud nawr?

Byddwn yn parhau i symud ymlaen, cyflymu ac ehangu ein huchelgais - ar sail cynlluniau gweithredu cadarn a gofynion buddsoddi clir.

Os hoffech chi wybod mwy, gallwch ddod o hyd i'n gwefan yma...
**cardiffhealthpartners.org.uk**

**Dyma'r amser i gefnogi partneriaeth gysylltiedig sy'n troi aliniad strategol yn ganlyniadau i gleifion, yr economi a chymdeithas.**

> **"Mae Partneriaid Iechyd Caerdydd yn cynrychioli'r union fath o arloesi beiddgar, cydweithredol sy'n diffinio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'n fuddsoddiad nid yn unig mewn arloesedd meddygol a thwf economaidd, ond ar gyfer gwella iechyd, lles a chyfleoedd bywyd pobl ledled De-ddwyrain Cymru a thu hwnt.**
>
> **Mike Brough**
> Cyfarwyddwr Twf Economaidd,
> Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cardiff
Health Partners

Partneriaid Iechyd
Caerdydd

cardiffhealthpartners.org.uk